

Ceramic Series

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE No. 35

GILLIAN STILL

Gillian Still is an artist in porcelain. These key words — artist and porcelain — conjure up very different traditions which are synthesised in her work. Looking back on her student days at Farnham College of Art Gillian Still considers herself fortunate to have been trained under the National Diploma in Design. The course offered what she calls a 'renaissance' training allowing students to experience a variety of techniques and media in the first two years before choosing an area of specialisation. She became a sculptor of large scale figurative work in plaster of Paris — a modeller rather than a carver, it was only a short step to move over into ceramics.

As a young artist she taught sculpture at Harrow College of Art, a most unusual post for a woman to hold. Sculpture, even 25 years later, is still a male stronghold within the art college system. During the 1960s Harrow was famous for its ceramic course set up by Victor Margrie and Michael Casson and the buzz from the ceramic department left its mark. She was drawn into the excitement with clay, glazes and kilns. In fact she had never enjoyed the casting process associated with her sculpture technique. Although domestic pottery was the main emphasis on the course it was the possibilities of figurative modelling in clay that attracted her. She began to produce smaller scale pieces and found a wider audience for her work.

Gillian Still's career pattern exemplifies the choices that artists have to make. Ceramics is a field in which it is possible to earn a living but it is never easy in Britain where there is no strong tradition of private patronage from collectors. Many artists produce work in the full knowledge that it is unlikely to sell. It is sufficient that they see their work exhibited and purchased occasionally by collectors and museums. But to do this the artist has to have another income of which the most common is that from being a teacher in an art college. This activity buys the artist freedom to produce in a way that is relatively unpressured by the market. In her early career she was a full time teacher, a post she enjoyed but found too time consuming and draining to allow her to make work as she




Photo: A. Vincentelli



Detail, frieze of Nuns.

wished; 23 years ago she decided to move to Wales where she could find a less frenetic life style and live in a beautiful environment. For many years she taught part-time gradually moving the balance of her time towards her own production. For the last three years she has given up teaching entirely and is now able to exist on the sale of work. At one point she considered an offer of a contract with a London gallery who were to promote her work but she was quickly

disillusioned with the deal on discovering that they wished to straightjacket her into producing the commodity that they felt would be marketable. In everything she does personal freedom seems to be a strong motivation. She and her husband are planning to set up a gallery where they will sell a variety of art work — painting, sculpture, glass, prints and ceramic sculpture. They will not be selling domestic pottery as they feel that there are many other venues for that.

Gillian Still has always worked in porcelain.



Photo: A. Vincentelli

It is her dialogue with this material that produces the rewards in viewing her work. Her modelled figures have many precedents, from fanciful ornamental shepherdesses to clowns or character figures. An awareness of these forebears runs through the work but it is the surprising deviations which catch the imagination.

Her doll figures have been her most popular subject over the years and she makes them regularly alongside more experimental pieces. Porcelain dolls appeal to a nostalgia for Victoriana and evoke childhood memories but there is more than that. Many artists have been fascinated with dolls and manikins and they can become metaphors for the human condition. Gillian Still's dolls have recently become more evocative. Broken dolls emerge from boxes or limbs dangle in awkward poses. We take pleasure in the manipulation of the medium in which the once-plastic-now-brittle body is transformed into something soft and light with intriguing details of strands of hair, or the fall of cloth, or the floppy bow. How do we know they are dolls and not just figurines? Dolls have a particular character which makes them a special kind of human model. They sit in that characteristic splay-legged way and stare with that impenetrable expression, innocent yet knowing. The dolls are made in part from moulds which allows a

more rapid production of the basic pieces which can then be modified.

She describes porcelain as a wayward material, unpredictable but full of surprises. Its translucent whiteness makes it a fine surface on which to apply colour. She makes full use of the delicacy, even prettiness, of the material but in a quite contrary way she often depicts the ugly, the grotesque, and the humour of everyday life. A lively tension between oppositional characteristics is created: the beautiful young girl covered in tattooing, figures cut off at certain points emphasising unusual aspects, the earthy sensuality of bums in the air or low cut dresses, tight jeans, flying hair, or flexed muscles.

Gillian Still is an observer of people. She enjoys human idiosyncracies and has always loved to work from the model. Her piece entitled 'Waiting' of a woman seated on a settee was based on a friend who, she recalls, always tried to give the impression of being very relaxed but in fact was very tense. That tension is conveyed in the pose and the blankness of the eyes behind the glasses further suggests a screen. On a more witty note in 'Hurrying Nuns', inspired by the nuns in a school where she once worked, the triple format with its diagonal thrust makes one feel that at any moment the nuns might fly off separately and arrange themselves like the three flying ducks that have adorned so many sitting

room walls.

Strange factors can be the source of new directions. In a house move last year she was not able to take her kiln. Obligated to buy a new one she opted for a much smaller kiln, one third the capacity of its predecessor. It meant work could be fired in batches and passed through the whole process more quickly. Unexpectedly the smaller kiln inspired her to make larger pieces. It was a challenge to make a work that would fill the kiln. She considers it to be a breakthrough.



"Arnold's Field of the Cloth of Gold Heart Box"

The first major piece she made after this was 'Arnold's Field of the Cloth of Gold Heart Box'. It started from a box form made out of tiles, a hat box in her mind. Inspired by the huge stuffed hearts on showy Valentine cards she created a dome swelling out of the box. Ribbons are taken up the sides and flow into the Three Graces making a handle form. The dome is edged with a series of little figures based on the body builder Arnold Schwarzenegger while the sides are swathed with a flamboyant bow. Gold decoration is applied in touches. It is much less about observation of the external world than many of her earlier pieces and allows her imagination to run around images. The architectural appearance of the object — box but not box — is very strong. Full of references to past art without any being specific or even clearly conscious, it is reminiscent of 16th century mannerist decorations or the extravaganzas of Art Nouveau, a source which can be seen in many works by this artist including 'Eros with Butterflies', a sequel to the earlier piece. Its strong Art Nouveau associations play on the theme of a narcissistic Eros as toy boy to the harpies who swirl around the base.

Gillian Still is not a potter and has never made pots. She sees herself as an artist in porcelain. Increasingly she draws on an imaginative collage of images that come together in her mind and flow into her creations which are further enlivened by their titles: 'Arnold's Field of the Cloth of Gold Heart Box' — evocative words for evocative work.

Maira Vincentelli — July 1989.

Y Gwres Gerameg

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH RHIF 35

GILLIAN STILL

Artist mewn porslen yw Gillian Still. Mae'r ddau air allweddol hyn — artist a phroslen — yn awgrymu dau draddodiad gwahanol iawn i'w gilydd sydd wedi eu cyfuno yn ei gwaith. Wrth edrych yn ôl ar y cyfnod pan oedd hi'n fyfyrwr yng Ngholeg Celf Farnham mae Gillian Still yn ystyried iddi fod yn ffodus i gael ei hyfforddi ar gyfer y Diploma Cenedlaethol mewn Cynllunio. Roedd y cwrs yn cynnig yr hyn a eilw hi yn hyfforddiant 'adfywiol' a oedd yn caniatáu i'r myfyrwyr gael profiad o amryfal dechnegau a chyfryngau yn y ddwy flynedd gyntaf cyn iddynt ddewis maes yr oeddynt am arbenigo ynddo. Daeth hi'n gerflunydd gwaith ffigurol ar raddfa fawr mewn plastr Paris — modelwr yn hytrach na cherfiwr, a dim ond cam bychan oedd rhwng hynny a cherameg.

Pan yn artist ifanc bu'n dysgu cerflunïaeth yng Ngholeg Celf Harrow, swydd hynod o anghyffredin i ferch. Hyd yn oed bum mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, mae cerflunïaeth yn dal i fod yn faes sydd wedi ei gyfyngu bron yn gyfangwbl i ddynion yn system y colegau celf. Yn ystod y chwedegau roedd Harrow yn enwog am y cwrs cerameg a sefydlwyd gan Victor Margie a Michael Casson ac fe adawodd cyffro'r adran gerameg ei ôl arni. Cafodd ei denu gan y cynnwrf oedd ynglŷn â chlai, gwydreddau ac odybau. Yn wir doedd hi erioed wedi cael blas ar y broses o gastio a oedd ynghlwm wrth ei thechneg gerflunïol. Er mai ar grochenwaith domestig yr oedd prif bwyslais y cwrs, y posibilrwydd o fodelu ffigurol mewn clai a'i denodd. Dechreuodd lunio eitemau ar raddfa lai a chanfod fod eangach derbyniad i'w gwaith.

Mae patrwm gyrfu Gillian Still yn enghraifft nodweddol o'r dewis sy'n wynebu artistiaid. Mae maes cerameg yn un lle mae hi'n bosibl ennill bywoliaeth, ond dyw hynny byth yn hawdd ym Mhrydain lle nad oes traddodiad cryf o nawddogaeth breifat o du'r casglwyr. Cynhyrchir gwaith gan lawer o artistiaid sy'n gwbl ymwybodol mai prin iawn y llwyddir i'w werthu. Maent yn ddigon bodlon ar weld eu gwaith yn cael ei arddangos ac yn cael ei brynu'n achlysurol gan gasglwyr ac amgueddfeydd. Ond cyn y gall wneud hynny mae'n rhaid i'r artist wrth incwm arall a hynny gan amlaf drwy fod yn athro mewn coleg celf. Mae gweithio fel hyn yn caniatáu i'r artist ryddid i gynhyrchu heb boeni rhyw lawer am ystyriaethau masnachol. Ar ddechrau ei gyrfu roedd Gillian Still yn athrawes llawn amser ac, er ei bod yn mwynhau'r gwaith, roedd yn mynd â gormod o'i hamser a'i hegni fel na châl gyfle i lunio cerameg fel y byddai hi wedi hoffi. Dair blynedd ar hugain yn ôl penderfynodd symud i Gymru lle y gallai ddod o hyd i ffordd fwy hamddenol o fyw a hynny mewn amgylchfyd hardd. Am flynyddoedd lawer bu'n dysgu'n rhan amser gan raddol gynyddu'r cyfran o'i hamser a gâi ei neilltuo ar gyfer cynhyrchu ei gwaith ei hun. Ers tair blynedd bellach rhoddodd y gorau i ddysgu yn gyfangwbl gan ei bod yn gallu byw ar werthiant ei gwaith. Ar un adeg bu'n ystyried



Photo: A. Vincentelli

cytundeb a gynigiwyd gan oriel yn Llundain a oedd yn barod i hyrwyddo ei gwaith, ond fe'i dadrihiwyd yn fuan gan y trefniant pan sylweddolodd fod yr oriel am ei chaethiwo i gynhyrchu'r math o beth a fyddai, yn eu barn hwy, yn apelio at y farchnad. Ym mhopeth y mae hi'n ei wneud mae'n ymddangos fod rhyddid personol yn gymhellid cryf. Mae hi a'i gŵr yn cynllunio i agor oriel lle byddant yn gwerthu amrywiaeth o waith celf — peintiadau, cerfluniau, gwaith gwyr, printiau a cherflunïaeth geramig. Ni fwriadant werthu llestri domestig gan eu bod o'r farn fod llaweroedd o fannau eraill ar gael ar gyfer hynny.


Gyda phorslen y mae Gillian Still wedi gweithio bob amser. Ei deialog â'r defnydd hwn

sy'n gwneud ei gwaith yn fuddiol i edrych arno. Mae amryw o gynseiliau i'r ffigurau a fodelir ganddi, a'r rheini'n amrywio o fugelïesau addurnol ffansiol i glownïad neu ffigurau'n delweddu cymeriadau. Mae ymwybyddiaeth o'r cynseiliau hyn yn rhedeg drwy ei gwaith ond yr amrywiadau rhyfeddol sy'n tanio'r dychymyg.

Ffigurau o ddoliau fu ei hoff bwnc drwy'r blynyddoedd ac mae hi'n eu cynhyrchu'n rheolaidd ochr yn ochr ag eitemau mwy arbrol. Mae doliau porslen yn apelio at ryw ddyhead am bethau oes Fictoria ac yn dwyn i gof atgofion plentynod, er bod mwy iddynt na hynny. Cafodd llawer i artist ei swyno gan ddoliau a modelau o ddynion, a gallant ddod i gynrychioli'r cyflwr dynol. Yn ddiweddar mae doliau Gillian



Gillian Still in her studio.



'Waiting' - Porcelain by Gillian Still

Still wedi datblygu'n fwy atgofus. Ceir doliau toredig yn ymddangos allan o flychau neu aelodau yn honglian mewn ystum lletchwith. Cawn ein boddhau gan y modd y caiff y cyfrwng ei drafod nes bod y corff a fu unwaith yn hydwyth ac sydd bellach yn fregus yn cael ei drawsnewid yn rhywbeth meddal ac ysgafn gan fanylion dengar cudynnau o wallt, neu blyg defnydd neu fwa llipa. Sut y gellir dweud mai doliau ydynt yn hytrach na ffigurynnau? Mae rhyw gymeriad arbennig yn perthyn i ddoliau sy'n eu gwneud yn fath neilltuol o fodel dynol. Mae ganddynt eu ffordd nodweddiadol o eistedd gyda'u coesau ar led ac o lygadrythu'n anchwiliadwy, yn ddiniwed ddoeth. Gwneir y doliau yn rhannol o fowldiau, sy'n hwyluso llunio'r rhannau sylfaenol, rhannau a gaiff eu haddasu yn nes ymlaen. Mae hi'n disgrifio porslen fel defnydd mympwyol; mae'n anodd darogan y canlyniadau ac mae'n ddeunydd sy'n synnu rhywun yn aml. Oherwydd ei wynder lletglir mae'n arwynebu gwyb i liwio arno. Mae hi'n manteisio i'r eithaf ar geiriau a hyd yn oed ar dlysi'r defnydd, ond yn aml, mewn modd pur wrthnysig, mae hi'n darlunio'r hagr, y gwrthyn, a

hiwmor bywyd bob dydd. Y canlyniad yw tensiwn bywiog rhwng nodweddion gwrthgyferbyniol; y ferch ifanc hardd sydd wedi ei gorchuddio â thatws, ffigurau sy'n diweddu mewn manau sy'n pwysleisio ag-weddau anghyffredin, cnawdolrwydd daearol pennau ôl yn yr awyr neu ffrogiau dadlennol, jins tyn, gwallt ar chwâl neu gyhyrau hyblyg.

Mae Gillian Still yn sylwi'n graff ar bobl. Caiff ei boddhau gan eu hynodrwydd ac mae hi bob amser wedi hoffi gweithio gyda model. Seiliwyd ei gwaith dan y teitl 'Aros'; sy'n portreadu gwraig yn eistedd ar seti, ar ffrind iddi y mae hi bob amser yn ei chofio yn ceisio rhoi'r argraff ei bod yn ymlacio'n llwyr er ei bod mewn gwirionedd ar bigau'r drain. Cyfleuir y tensiwn hwnnw yn yr ystum ac mae gwacter y llygaid y tu ôl i'r sbectol yn ychwanegu awgrym pellach o sgrin. Yn ei 'Lleianod Ar Frys' a ysbrydolwyd gan y lleianod yn yr ysgol lle bu hi'n gweithio ar un amser, ceir nodyn mwy ffraeth lle mae'r fformat driphlyg gyda'i egni lletraws yn cyfleu'r teimlad y gallai'r lleianod godi ehediad ar wahan unrhyw funud a threfnu eu hunain yn yr un modd â'r tair hwyaden hedegog a welwyd yn addurno waliau cymaint o ystafelloedd eistedd.

Gall factorau rhyfedd arwain pobl i gyfeiriadau newydd. Pan symudodd hi o un tŷ i'r llall llynedd, fe fethodd hi fynd â'i hodyn gyda hi. Bu'n rhaid iddi brynu un newydd ac fe ddewisodd hi odyd llawer llai, dim ond traean maint yr un flaenorol. Golygai hyn y gellid tanio gwaith fesul sydyn a'i gael drwy'r broses yn llawer mwy cyflym. Yn rhyfedd ddigon fe'i hysbrydolwyd gan yr odyd fach i gynhyrchu eitemau mwy. Roedd cynhyrchu gwaith a fyddai'n llenwi'r odyd yn sialens iddi. Mae hi'n ystyried hyn yn ddatblygiad allweddol yn ei gwaith.

Yr eitem gyntaf o bwys a wnaeth hi'n dilyn y newid hwn oedd 'Arnold's Field of the Cloth of

Gold Heart Box'. Dechreuodd gyda blwch wedi ei wneud o deils, bocs hetiau yn ei bryd hi. Dan ddylanwad y calonnau mawr wedi eu padio a welir ar rai cardiau Ffolant rhwysgfawr, lluniodd gromen yn ymchwyddo allan o'r bocs. Mae rubanau yn rhedeg i fyny'r ochrau ac yn ymdoddi i ffigurau'r Tair Chwaer Rasol i ffurfio dolen. O gwmpas ymyl y gromen ceir cyfres o ffigurau bychain sy'n seiliedig ar Arnold Schwarzenegger, y corff-feithrinwr, tra mae'r ochrau wedi eu hymrwymo â ruban dolennog gorwch. Ceir addurn aur yma a thraw. Mae'r gwaith hwn yn dibynnu llawer llai ar ei sylwgarwch ar y byd o'i chwmpas nag yr oedd llawer o'i heitemau mwy cynnar, ac mae'n caniatáu i'w dychymyg ymwneud â delweddau. Mae ymddangosiad pensaernïol y gwrthrych — blwch nad yw'n flwch — yn gryf lawn. Mae'r gwaith yn llawn cyfeiriadaeth at gelfyddyd y gorffennol er nad oes unrhyw gyfeiriad penodol na hyd yn oed gyfeiriad sy'n amlwg ymwybodol; mae'n dwyn i gof addurniadau darddullaid yr unfed ganrif ar bymtheg neu afradlodedd Art Nouveau, ffynhonnell sydd i'w chanfod mewn llawer enghraifft o waith yr artist gan gynnwys 'Eros with Butterflies', dilyniant o'r gwaith blaenorol. Mae ei gysylltiadau cryfion ag Art Nouveau yn cyffwrdd â thema Eros narcisistig fel 'toy boy' i'r merched trachwantus sy'n chwyldroi o gwmpas bôn y gwaith.

Nid crochenydd yw Gillian Still ac nid yw hi erioed wedi cynhyrchu potiau. Fel artist mewn porslen y mae hi'n ei hystyried ei hun. Mae hi'n dibynnu'n fwyfwy ar gollage dychmygus o ddelweddau sy'n dod ynghyd yn ei meddwl ac yn llifo i'w chreadigaethau sy'n cael eu bywiogi ymhellach gan eu teitlau: 'Arnold's Field of the Cloth of Gold Heart Box' — geiriau atgofus am waith sy'n ennyn llw o atgofion.

Moria Vincentelli — Gorffennaf 1989